# Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn (203)

# Dydd Mercher, 17 Mai 2006

# AGENDA

# Bydd y cyfarfod yn dechrau am 2.00pm

**Eitem 1 - Cynnig i ohirio'r Rheolau Sefydlog**

**Eitem 2 - Cynnig i sefydlu Comisiwn Cysgodol**

**Eitem 3 - Cynnig i ethol Aelodau i'r Comisiwn Cysgodol**

**Eitem 4 -** Cynnig i sefydlu Pwyllgor Ymgynghorol i argymell Rheolau Sefydlog i'r Cynulliad

**Eitem 5 - Cynnig i ethol Aelodau i'r Pwyllgor Rheolau Sefydlog**

**Eitem 6 - Cwestiynau i Brian Gibbons, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Eitem 7 - Cwestiynau i Alun Pugh, y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon**

**Eitem 8 - Cwestiynau i Bwyllgor y Ty**

**Cwestiwn Brys - Carl Sargeant (Alyn and Deeside):** What discussion has the Minister had regarding the job losses at the Vauxhall Ellesmere Port plant and the effect this will have on North East Wales.

**Eitem 9 -** Cynnig i geisio cytundeb y Cynulliad Cenedlaethol bod Llywodraeth Cynulliad

Cymru wedi bodloni gofynion cynnig Gwenda Thomas AC o dan Reol Sefydlog 31 a drafodwyd yn y Cyfarfod Llawn ar 23 Tachwedd 2005

**Eitem 10 - Cynnig i gymeradwyo trosglwyddiad o un Prif Grwp Gwariant i Brif Grwp Gwariant arall yn ystod y flwyddyn**

**Eitem 11 - Dadl am y Diwydiant Gweithgynhyrchu**

**Eitem 12 - Dadl am ESTYN - Adroddiad Prif Arolygydd Ysgolion Ei Mawrhydi**

**Eitem 13 - Y ddadl fer** NDM3039 Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru): Meysydd Glas mewn Trefi a Thai Fforddiadwy

........................................

**Eitem 1 - Cynnig i ohirio Rheolau Sefydlog**

## NDM3048 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog 37.5 a 37.6:

1. Yn gohirio Rheol Sefydlog 6.13 a'r rhan honno o Reol Sefydlog 5.4 sy'n ei gwneud yn ofynnol mai'r datganiad busnes wythnosol yw'r amserlen gytûn ar gyfer busnes y Cynulliad, i ganiatáu i NNDM3046 ac NNDM3047 – sy'n ymwneud â sefydlu ac ethol y Comisiwn Cysgodol – gael eu hystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 17 Mai 2006; a

2. Yn gohirio Rheol Sefydlog 6.14 i ganiatáu i unrhyw welliannau mewn perthynas ag NNDM3046, a gyflwynwyd cyn 11:00am ddydd Mercher 17 Mai, gael eu hystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 17 Mai 2006.

........................................

**Eitem 2 - Cynnig i sefydlu Comisiwn Cysgodol**

**NNDM3046 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 8.1:

1. Yn sefydlu Pwyllgor i gynllunio ar gyfer y materion a ddaw dan gyfrifoldeb y darpar Gomisiwn y Cynulliad, yn unol â'r hyn a bennir yng Nghymal 27 Mesur Llywodraeth Cymru;

2. Teitl y Pwyllgor fydd y Comisiwn Cysgodol;

3. Bydd aelodau'r Comisiwn Cysgodol yn cynnwys un Aelod Cynulliad o'r Blaid Lafur, un o Blaid Cymru, un o Blaid Ceidwadwyr Cymru ac un o Blaid Democratiaid Rhyddfrydol Cymru a'r Llywydd a fydd yn cadeirio'r Pwyllgor;

4. Cylch gorchwyl y Comisiwn Cysgodol fydd cynllunio ar gyfer y materion a ddaw dan gyfrifoldeb y darpar Gomisiwn y Cynulliad.

5. Bydd y pwyllgor yn peidio â bod ar 2 Mai 2007.

Gellir gweld Deddf Llywodraeth Cymru trwy ymweld â'r ddolen ganlynol: http://www.publications.parliament.uk/pa/cm200506/cmbills/100/2006100.pdf

**Asesu Costau a Buddiannau sefydlu'r Comisiwn Cysgodol**

***Costau'r Comisiwn***

Bydd y Comisiwn yn cael ei wasanaethu gydag adnoddau staff cyfredol Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad ac ni fydd yn golygu unrhyw gost ychwanegol.

***Buddiannau'r Comisiwn***

Sefydlu'r Comisiwn cysgodol, a fydd yn cynnwys cynrychiolwyr o bob plaid, fyddai'r ffordd orau o fwrw ymlaen i ystyried y materion a ddaw dan gyfrifoldeb y darpar Gomisiwn y Cynulliad, yn unol â'r hyn a bennir yng Nghymal 27 Mesur Llywodraeth Cymru.

Nid oes unrhyw oblygiadau ychwanegol.

........................................

**Eitem 3 - Cynnig i ethol Aelodau i'r Comisiwn Cysgodol**

**NNDM3047 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 8.4, yn ethol yr Aelodau canlynol i'w Gomisiwn Cysgodol:

Dafydd Elis-Thomas (Y Llywydd)

Lorraine Barrett (Y Blaid Lafur)

Elin Jones (Plaid Cymru)

William Graham (Y Blaid Geidwadol)

Peter Black (Y Democratiaid Rhyddfrydol)

ac yn ethol y Llywydd i Gadeirio'r Comisiwn Cysgodol.

**.......................................**

**Eitem 4 -** Cynnig i sefydlu Pwyllgor Ymgynghorol i argymell Rheolau Sefydlog i'r Cynulliad

**NDM3044 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 8.1:

1. Yn sefydlu Pwyllgor Ymgynghorol i argymell Rheolau Sefydlog i'r Cynulliad a gyfansoddir dan Fesur Llywodraeth Cymru;

2. Teitl y Pwyllgor fydd y Pwyllgor Rheolau Sefydlog;

3. Bydd saith Aelod o'r Cynulliad yn aelodau o'r Pwyllgor, pedwar o'r Blaid Lafur, un o Blaid Cymru, un o Blaid Ceidwadwyr Cymru ac un o Blaid Democratiaid Rhyddfrydol Cymru a fydd yn cadeirio'r Pwyllgor;

4. Dyma fydd cylch gorchwyl y Pwyllgor Rheolau Sefydlog:

a) Gwneud pob ymdrech i argymell rheolau sefydlog newydd, sy'n gallu sicrhau cymeradwyaeth mwyafrif o ddau draean yn y cyfarfod llawn;
b) Paratoi adroddiad, a fydd yn amlinellu rheolau sefydlog newydd a gynigir i'r cyfarfod llawn eu hystyried.

5. Bydd y Pwyllgor yn adrodd ar neu cyn 31 Ionawr 2007. Daw'r pwyllgor i ben ar 1 Mawrth 2007.

Gyda'r cynnig uchod cafwyd yr asesiad canlynol o'r costau, y buddion ac unrhyw oblygiadau eraill sy'n berthnasol i sefydlu'r pwyllgor:

**Asesiad o Gostau a Buddion sefydlu Pwyllgor Rheolau Sefydlog**

**Costau'r Pwyllgor**

Bydd y Pwyllgor yn cael ei wasanaethu drwy gyfrwng adnoddau staff presennol Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad ac ni fydd yn golygu unrhyw gost ychwanegol.

**Buddion y Pwyllgor**

Sefydlu'r Pwyllgor ychwanegol, a fydd yn cynnwys cynrychiolwyr o bob plaid, fyddai'r ffordd orau o fwrw ymlaen i ystyried ac argymell Rheolau Sefydlog ar gyfer y Cynulliad a gyfansoddir dan Fesur Llywodraeth Cymru.

Bydd y Pwyllgor yn adrodd ar neu cyn 31 Ionawr 2007 a daw i ben ar 1 Mawrth 2007.

Nid oes unrhyw oblygiadau ychwanegol.

......................................

## Eitem 5 - Cynnig i ethol Aelodau i'r Pwyllgor Rheolau Sefydlog

**NDM3045 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 8.4, yn ethol yr Aelodau canlynol ar y Pwyllgor Rheolau Sefydlog:

Jane Hutt (Llafur)
Ann Jones (Llafur)
Val Lloyd (Llafur)
Gwenda Thomas (Llafur)
Jocelyn Davies (Plaid Cymru)
Lisa Francis (Ceidwadwyr)
Jenny Randerson (Democratiaid Rhyddfrydol)

ac yn ethol Jenny Randerson i gadeirio'r Pwyllgor.

......................................

## Eitem 6 - Cwestiynau i Brian Gibbons, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

......................................

## Eitem 7 - Cwestiynau i Alun Pugh, y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

......................................

## Eitem 8 - Cwestiynau i Bwyllgor y Ty

........................................

Cwestiwn Brys - **Carl Sargeant (Alyn and Deeside):** What discussion has the Minister had regarding the job losses at the Vauxhall Ellesmere Port plant and the effect this will have on North East Wales.

........................................

## Eitem 9 - Cynnig i geisio cytundeb y Cynulliad Cenedlaethol bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi bodloni gofynion cynnig Gwenda Thomas AC o dan Reol Sefydlog 31 a drafodwyd yn y Cyfarfod Llawn ar 23 Tachwedd 2005

**NDM3043 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru

1. Yn cydnabod bod y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau:

a) wedi dod â Gorchymyn Deddf Addysg 2002 (Cychwyn Rhif 8) (Cymru) 2006 ymlaen, sy'n cychwyn adran 175 Deddf Addysg 2002 ar gyfer ei gymeradwyo yng Nghyfarfod Llawn 31 Ionawr 2006; a

b) bydd yn cyhoeddi arweiniad i gefnogi awdurdodau addysg lleol a chyrff llywodraethu i arfer eu swyddogaethau i ddiogelu a hyrwyddo lles plant, sy'n cynnwys enwebu llywodraethwr wedi'i enwi a fydd yn gyfrifol am faterion sy'n ymwneud ag amddiffyn plant a sefydlu cronfeydd ddata awdurdod addysg lleol o lywodraethwyr a enwebwyd ar gyfer ymgynghori yn ystod tymor yr haf gyda'r bwriad o roi hyn ar waith mewn ysgolion yn ystod tymor Hydref 2006.

2. Yn credu y bydd y camau a geisiodd Gwenda Thomas yn ei chynnig NDM2641 dan Reol Sefydlog 31.2 a drafodwyd ar 23 Tachwedd 2005, wedi cael eu cwblhau'n foddhaol, ac felly na ddylai fwrw ymlaen â gweddill camau gweithdrefn Rheol Sefydlog 31.

*Gosodwyd Gorchymyn Deddf Addysg 2002 (Cychwyn Rhif 8) (Cymru) 2006 yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Ionawr 2006.*
*Gellir gweld Deddf Addysg 2002 trwy ddilyn y ddolen hon: http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2002/20020032.htm*

Dogfennau Atodol

NDM2641

........................................

## Eitem 10 - Cynnig i gymeradwyo newidiadau i'r Prif Grwpiau Gwariant

**NDM3040 Sue Essex (Gogledd Caerdydd)**

Bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 21.6, yn cymeradwyo'r newidiadau i'r Prif Grwpiau Gwariant ar gyfer y flwyddyn ariannol 2006-07, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ddydd Mawrth 9 Mai gan y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus a Chymunedau, Sue Essex.

*Gosodwyd y tablau canlynol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Mai:*

*Dengys Tabl 1 y newidiadau a gynigir i ddarpariaeth bresennol y Cynulliad ar gyfer y Prif Grwpiau Gwariant sy'n ymwneud â throsglwyddiadau i adrannau eraill y llywodraeth ac ohonynt a newidiadau cyllideb technegol.*

Dogfennau Atodol
Tabl 1
Nodyn Esboniadol

........................................

## Eitem 11 - Dadl am y Diwydiant Gweithgynhyrchu

**NDM3041 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi cryfder cynyddol y gystadleuaeth yn y sector gweithgynhyrchu yn fyd-eang;

2. Yn cydnabod yr angen parhaus i'r sector gweithgynhyrchu yng Nghymru roi ei hun mewn sefyllfa i fanteisio ar y sefyllfa fyd-eang;

3. Yn cadarnhau'r angen i roi cefnogaeth barhaus y sector cyhoeddus i'r sector yng Nghymru.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu*

*cynnal yn unigol:*

**(1+2+7)**

**(3+4)**

**(5+6)**

**Gwelliant 1. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ym mhwynt 2, cynnwys ar ôl ‘sefyllfa fyd-eang’:

‘ac, yng ngoleuni’r nifer gyfyngedig o gwmnïau rhyngwladol troedrydd yn y sector gweithgynhyrchu, yn cydnabod pwysigrwydd cynyddol BBaCh cynhenid ac yn annog y Llywodraeth i gymryd camau rhagweithiol i helpu'r BBaCh yn y maes gweithgynhyrchu yng Nghymru, i ehangu ac i sefydlu rhai newydd'

**Gwelliant 2. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ym mhwynt 3, cynnwys ar ôl ‘Cymru’:

‘ac felly’n cydnabod yr angen am ddull gweithredu mwy strategol a phenodol at y defnydd o gyllid yr UE’

**Gwelliant 3. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn targedu buddsoddiad at ddiwydiannau twf a diwydiannau’r dyfodol.

**Gwelliant 4. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod y byddai safle Cymru o ran gweithgynhyrchu’n cael ei gryfhau drwy aelodaeth o’r Ewro.

**Gwelliant 5. Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu am y gostyngiad yn y cynnyrch gweithgynhyrchu yng Nghymru tra bo’r sector yng

ngweddill y DU yn tyfu, ac yn mynegi pryder am ostyngiadau yn y mynegai cynhyrchu, adeiladu, gweithgynhyrchu ac yng ngwerth allforion, a hefyd y cynnydd mewn diweithdra dros y 12 mis diwethaf, ac yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gydnabod ei methiannau ac adolygu ei strategaethau yn unol â hynny.

**Gwelliant 6. Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynnal arolygon priodol a rheolaidd o gyflogwyr yn y diwydiant gweithgynhyrchu a gweithredu yn unol â hynny, i sicrhau bod sgiliau'r gweithwyr yn y sector yn cael eu gloywi.

**Gwelliant 7. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru, yng ngoleuni ei hymrwymiad i gynaliadwyedd, i gyflwyno polisïau newydd i helpu'r sector gweithgynhyrchu yng Nghymru i ddefnyddio llai o ynni ac ailgylchu hyd eithaf eu gallu er mwyn lleihau'r ôl-troed carbon sy'n deillio o'r sector hwn, heb danseilio ei botensial ar gyfer twf.

**........................................**

## Eitem 12 - Dadl am ESTYN - Adroddiad Prif Arolygydd Ysgolion Ei Mawrhydi

**NDM3042 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi:

a. Adroddiad blynyddol Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi;

b. Barn y Prif Arolygydd bod safonau'n gwella mewn nifer o feysydd addysg a hyfforddiant;

c. Y camau sy'n cael eu cymryd drwy ein hagenda unigryw ar gyfer Cymru, "Y Wlad sy'n Dysgu", i chwalu'r rhwystrau i ddysgu a rhoi sylw i'r meysydd ar gyfer gwella a nodwyd gan y Prif Arolygydd.

*Gellir gweld adroddiad blynyddol Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi drwy ddefnyddio'r hyperddolenni canlynol:*

http://www.estyn.gov.uk/publications/Estyn_Full_Annual_Report_English.pdf

http://www.estyn.gov.uk/publications/cy_Estyn_Full_Annual_Report_Welsh.pdf

Cyhoeddir "Y Wlad sy'n Dysgu" mewn dwy ran, y gellir eu gweld drwy ddilyn yr hyperddolenni isod:

http://assembly/education/topics/lifelong-learning/ll-docs/learning-country/doct-e.pdf
http://new.wales.gov.uk/docrepos/40382/4038232/4038211/403821211/learningcountry-w.pdf?lang=cy
http://new.wales.gov.uk/docrepos/40382/4038232/403821/the_learning_country_2/Learning_Country2_English.pdf?lang=en
http://new.wales.gov.uk/docrepos/40382/4038232/403821/the_learning_country_2/Learning_Country2_Welsh.pdf?lang=cy

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cynnal yn unigol:*

**(1+2+3+4+5+6+7)**

**(8+9+10+11)**

**Gwelliant 1. Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cyfarwyddo Llywodraeth y Cynulliad i gyfeirio cyllid tuag at leihau nifer y plant nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth.

**Gwelliant 2. Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi gyda phryder nifer y plant sy'n gadael yr ysgol gyda sgiliau llythrennedd, rhifedd a rhyngweithio cymdeithasol annigonol.

**Gwelliant 3. Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi gyda phryder sylwadau Arolygwyr bod 30% o ddysgwyr yn absennol o’r gwersi a aseswyd a diffyg strategaethau effeithiol i helpu dysgwyr i fod yn bresennol yn gyson.

**Gwelliant 4. Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi gyda phryder y methiant i roi sylw i faterion addysg sy'n ymwneud â’r system cyfiawnder ieuenctid.

**Gwelliant 5. Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cyfarwyddo Llywodraeth y Cynulliad i roi sylw i’r twf gwirioneddol o 0% yn y gwariant ar addysg bellach.

**Gwelliant 6. Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi gyda phryder na lwyddwyd i gyflawni'r targedau arholiadau a osodwyd gan Lywodraeth y Cynulliad mewn ysgolion uwchradd a cholegau.

**Gwelliant 7. Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi gyda phryder bod perfformiad ysgolion mewn ardaloedd difreintiedig yn Lloegr yn well na pherfformiad ysgolion mewn ardaloedd tebyg yng Nghymru.

**Gwelliant 8. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi’r pryder a fynegwyd gan Estyn ynghylch cyflwr adeiladau ysgolion a diffyg cydlyniad wrth gynllunio'r gwaith o'u cynnal a'u cadw a'u hatgyweirio.

**Gwelliant 9. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi gyda phryder effaith gyfyngedig CCAHau a Rhwydweithiau 14-19 ac yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i roi i’r partneriaethau hyn yr adnoddau a’r pwerau ar gyfer sicrhau newid.

**Gwelliant 10. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i wella'r ddarpariaeth ddysgu ar gyfer pobl ifanc gyda phroblemau iechyd meddwl.

**Gwelliant 11. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod yr angen i Awdurdodau Addysg Lleol roi sylw i’r diffyg yn yr addysg amser llawn a ddarperir ar gyfer disgyblion sydd wedi’u gwahardd yng Nghymru.

........................................

## Eitem 13 - Y ddadl fer

NDM3039 Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru): Meysydd Glas mewn Trefi a Thai Fforddiadwy

........................................

**Rhagwelir y bydd y cyfarfod yn dod i ben erbyn 5.30pm**

**……………………………………………..**

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mawrth, 23 Mai 2006**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**